Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

National Assembly for Wales
Equality, Local Government and Communities Committee

Elin Jones AC
Y Llywydd

19 Gorffennaf 2017

Annwyl Elin

Rhaglen y ddeddfwriaeth sydd ar y gweill

Diolch am eich llythyr dyddiedig 11 Gorffennaf yn gofyn am fy marn ar:

- A wyf o'r farn y byddai gan ein Pwyllgor gapasiti i reoli cyfaint y ddeddfwriaeth sydd ar y gweill; ac
- A yw'r ffaith bod dau bâr o Filiau yn cael eu cyfeirio tua'r un pryd yn debygol o achosi heriau penodol.

Capasiti y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Fy marn i yw nad yw'n ddelfrydol cael pedwar Bil mewn cyfnod mor fyr, ac sy'n dod mor gyflym ar ôl i'r Pwyllgor eisoes bod yn gwneud gwaith craffu ar bâr o Filiau, a hefyd ddaeth yn gyflym ar ôl ei gilydd, ac y dylid ceisio osgoi hynny.

Mae'r safbwynt hwn yn seiliedig ar nifer o ffactorau, gan gynnwys yr effaith fydd hynny'n ei chael ar ein capasiti ar gyfer craffu ar bolisi a'r gyllideb (heb ystyried unrhyw effaith sy'n deillio o Brexit). Byddai hynny'n golygu na fydd llawer o amser ar gael i wneud unrhyw waith craffu polisi, a byddem ond yn gallu gwneud gwaith byr iawn, fel ymchwiliadau undydd ar feysydd â ffocws cyfyngedig. O ystyried cylch gwaith eang a sylweddol ein pwyllgor, mae hyn yn bell o fod yn ddelfrydol.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

Byddem hefyd yn colli'r cyfle i ymateb i ddigwyddiadau, er enghraifft y gwaith rydym wedi'i wneud yn dilyn y tân erchyll yn Nhŵr Grenfell. Byddai hefyd yn cyfyngu'n ddifrifol, os nad yn atal yn llwyr, ar y cyfleoedd i wneud gwaith ymgysylltu ac allgymorth â'r gymuned neu i wneud ymweliadau. Rydym wedi gweld bod ymweliadau yn chwarae rhan hanfodol yn ein gwaith craffu polisi gan gynnwys ar ffoaduriaid a cheiswyr lloches; craffu ôl-ddeddfu ar Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 a Cymunedau yn Gyntaf: yr hyn a ddysgwyd.

Er ein bod yn cydnabod mai rhan bwysig o'n rôl yw gwneud gwaith craffu deddfwriaethol, nid yw'n ddelfrydol o gwbl bod swmp y gwaith craffu deddfwriaethol yn nwylo un pwyllgor. Mae hefyd yn cyfyngu ar allu Aelodau unigol i ddylanwadu a llunio'r flaenraglen waith, gyda'n rhaglen yn cael ei siapio yn y pen draw gan ffactorau allanol.

Rwy'n ymwybodol bod ein Pwyllgor a ragflaenom yn y Pedwerydd Cynulliad yn wynebu'r her hon hefyd, ac fe sefydlwyd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn rhannol i helpu i liniaru yn erbyn y pwysau hyn. Rwy'n cydnabod bod gan y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol lwyth gwaith trwm a phwysig yn edrych ar Brexit. Fodd bynnag, os mai'r achos yw bod hynny'n golygu na all y Pwyllgor wneud rhan o'u cylch gwaith oherwydd eu llwyth gwaith, mae'n amlwg y bydd angen i'r Pwyllgor Busnes edrych ar gylch gwaith y Pwyllgor EEAL, yn ogystal ag ystyried cylchoedd gwaith pwyllgorau eraill, i sicrhau nad yw'r broblem hon yn parhau i'r Pumed Cynulliad.

Achosion dwbl o Filiau

Rwy'n arbennig o bryderus ynghylch effaith amserlennu'r Biliau a'r ffaith ei bod yn debygol y bydd pâr o Filiau yn cael eu cyfeirio atom ddwywaith yn ystod y flwyddyn. Byddem yn croesawu unrhyw gamau y gellid eu cymryd i liniaru'r effaith y caiff hyn ar y Pwyllgor (gan gynnwys cyfeirio un o'r Biliau at Bwyllgor arall).

Mae hyn yn arbennig o bryderus mewn perthynas â'n llwyth gwaith yn yr hydref, gan ei bod hi'n bosibl, drwy gael dau Fil wedi'u cyflwyno tua'r un pryd (hyd yn oed

gan ystyried yr amser hirach sydd ar gael ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1 o Fil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Bil Pwyllgor)) bod hynny'n golygu na all y Pwyllgor wneud yr ymchwiliad y mae wedi cytuno i'w wneud ar Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus. Mae hwn yn ddarn o waith fyddai'n cysylltu â gwaith presennol y Pwyllgor ar dlodi yng Nghymru, ein gwaith craffu parhaus ar waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, tra hefyd yn edrych ymlaen at y Bil Diwygio Llywodraeth Leol, ac nid yw'n ddarn o waith fyddai'n perthyn i gylch gwaith unrhyw Bwyllgor arall.

Rydym eisoes wedi gweld yr effaith y gall cyfeirio pâr o Filiau ar adegau tebyg ei chael ar raglen waith Pwyllgor, yn dilyn ein hystyriaethau o'r Bil yr Undebau Llafur (Cymru), a gyflwynwyd ar 16 Ionawr, ynghyd â Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) a gyflwynwyd ar 13 Mawrth. Hyd yn oed gyda bron i ddau fis yn gwahanu atgyfeiriad y Biliau hyn, fe roedd effaith ar raglen waith y Pwyllgor. Er ein bod yn cydnabod y bydd achosion o amserlennu agos, mae'n bell o fod yn ddelfrydol bod hynny'n digwydd ar dri achlysur gwahanol o fewn dwy flynedd gyntaf Cynulliad.

Ymhellach at yr effaith ar y Pwyllgor a'n rhaglen waith, ni ellir gwneud y penderfyniadau hyn heb rywfaint o ystyriaeth i'r tîm integredig sy'n cefnogi'r Pwyllgor. Unwaith y bydd Cyfnod 2 wedi'i gwblhau, a bod gwaith craffu deddfwriaethol y Pwyllgor wedi dod i ben, bydd swyddogion y Pwyllgor yn parhau i gefnogi'r broses ddeddfwriaethol hyd at y Cydsyniad Brenhinol. Bydd cyflwyno parau o Filiau yn agos at ei gilydd yn amlwg yn cael effaith ar eu cyfrifoldebau eraill a'r gwaith maent yn ei wneud i'r Pwyllgor.

Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Pwyllgor Busnes wedi penderfynu ystyried effeithiau gwaith craffu deddfwriaethol ar Bwyllgorau unigol a'i fod yn edrych ar y rhaglen ddeddfwriaethol yn ehangach, yn hytrach nag ystyried Biliau ar eu pennau eu hunain. Rwy'n ddiolchgar am y cyfle i rannu fy marn ar yr heriau sy'n wynebu'r Pwyllgor dros y misoedd i ddod. Er mwyn ein helpu gyda'n gwaith ar y flaenraglen waith, byddwn yn gwerthfawrogi bod penderfyniad mewn egwyddor ynghylch yr

atgyfeiriad yn cael ei wneud cyn gynted ag sy'n ymarferol, i'n helpu gyda'n blaenraglen waith.

Yn gywir



John Griffiths

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.